# Polisi Cyfryngdod

| Diw. | Dyddiad | Pwrpas Cyhoeddi/Disgrifiad o Newid | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|
| 1. | Medi 2015 | | Medi 2018 |
| | | | |
| | | | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog Cyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr AD | Dirprwy Gyfarwyddwr AD | Dynol | |

**CYNNWYS**


1. Rhagarweiniad 3
2. Egwyddorion 3
3.

# 1. Cyflwynia

3.4 Efallai y bydd amgylchiadau lle na argymhellir cyfryngdod.

Er enghraifft:

- lle mae'r materion yn ymwneud ag ymrwymiadau statudol neu ddyletswydd gofal y Brifysgol;
- lle mae perygl i ddiogelwch / lles; neu
- lle dechreuwyd cymryd camau ffurfiol (e.e. trefn ddisgyblu ar gyfer camymddwyn difrifol neu mewn achos gweithgarwch troseddol honedig).

3.5 Os ystyrir bod cyfryngdod yn briodol, rhaid i bob unigolyn gytuno i gymryd rhan o'u gwirfodd. Rhoddir gwybod i'r holl bartïon am eu hawl i dynnu'n ôl o'r broses unrhyw bryd.

3.6 Mae'r broses cyfryngdod yn gyfrinachol ar bob ochr. Yr unig eithriad i reol cyfrinachedd yw lle mae yna weithred anghyfreithlon bosibl neu lle mae tystiolaeth o berygl difrifol i iechyd a diogelwch.

3.7 Os oes gan unigolion unrhyw bryderon ynghylch didueddrwydd y cyfryngwr / cyfryngwyr a ddewiswyd, dylid codi hyn gyda Chydlynydd y Gwasanaeth Cyfryngdod mor fuan ag sy'n bosibl.

3.8 Nid yw'r canlyniad yn derfynol, ond os yw'r ddau barti wedi cytuno i gymryd rhan, disgwylir bod yna ymrwymiad i ddod i gytundeb.

## 4. Yn Ystod y Cyfryngdod

4.1 Yn ystod y cyfarfod(ydd), bydd y cyfryngwr / cyfryngwyr yn:

- egluro'r broses cyfryngdod i'r ddau barti.
- helpu'r ddau barti i egluro'r materion sydd angen ymdrin â nhw
- cynorthwyo'r unigolion i nodi atebion posibl.

Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn:

- cael cyfle i siarad yn agored, heb ddim yn torri ffl1aao3CD 23/lang (cy-GB)>BDC0871 0

a ffurfiol perthnasol (e.e. trefn gwyno’r Brifysgol) ond ni ellir galw ar y cyfryngwr/cyfryngwyr i gymryd rhan mewn unrhyw broses arall.

**6**

Rheolir y gwasanaeth gan y Cydlynydd Cyfryngdod (y Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol - Datblygu, fel rheol) dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol. Bydd y Cydlynydd Cyfryngdod yn gyfrifol am reoli’r broses yn effeithiol yn y Brifysgol, a chynorthwyo â datblygiad parhaus a rhoi cefnogaeth i dîm cyfryngwyr y Brifysgol.

**7 Cyswllt â Pholisïau a Dulliau Gweithredu eraill y Brifysgol**

Disgwylir i’r broses cyfryngdod gael ei defnyddio fel proses ddatrys anffurfiol, ac ni chaiff ei defnyddio fel cam cyntaf ffurfiol yn nhrefn gwyno a disgyblu’r Brifysgol.

**8 Monitro a gwerthuso**

8.1 Cesglir gwybodaeth mewn cysylltiad â chategori staff, coleg / adran, gender, tarddiad ethnig, grŵp oedran ac anabledd y rhai sydd dan sylw. Caiff natur y mater ei chrynhoi, a chofnodir llwyddiant tybiedig y broses cyfryngdod fel sail i ddatblygu’r Cynllun yn y Brifysgol.

8.2 Aseswyd effaith y polisi hwn o ran cydraddoldeb ar sail ymgynghori a gwybodaeth a oedd ar gael adeg datblygu’r polisi. Argymhellir cynnal adolygiad o’r polisi o ran cydraddoldeb, ac yna bob tair blynedd. Dylai hyn gynnwys ystyried unrhyw ddata (ansoddol neu feintiol) a all nodi unrhyw faterion yn ymwneud â chydraddoldeb sydd wedi codi ac sydd angen eu hystyried.